**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG**
**GYNHALIWYD YN Y NEUADD 2 EBRILL 2026 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Meinir James, Jenny Jones, Rheinallt Jones, Nicola Jones, Elfyn Williams, Eifion Jones ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Janet Knott, Carys Thomas, Viv Davies, Shan Rees a Cynghorydd Sir Tyssul Evans

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5$^{ed}$ a 19$^{eg}$ Mawrth 2026.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Green Gen** – Derbyniwyd diweddariadau ar gynllun y prosiect. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau y byddai Gorchymyn Priffyrdd newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill. Nodwyd.
4. **Pont Rhydyronnen –** Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau bod arwyddion newydd wedi'u harchebu a'u bod yn disgwyl eu danfon. Nodwyd.
5. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir wedi cadarnhau nad oedd unrhyw gynnydd ar y mater. Nodwyd.
7. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ar 31 $^{ain}$ Mawrth 2026. Derbyniwyd adroddiad o’r Cyfarfod wrth y Cyng Nicola Jones. Nodwyd.
8. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau bod arwydd rhybuddio Croesfan i Gerddwyr ychwanegol wedi'i archebu, a bod y rhain i'w gosod ym mis Ebrill. Bydd y posibilrwydd o ddarparu croesfan â signalau ar gyfer y lleoliad yn cael ei godi gyda'r Cyngor.
9. **Presenoldeb yr heddlu mewn Cyfarfod Cyngor neu ddigwyddiad Allgymorth Cymunedol –** Byddai'r Heddlu'n bwriadu mynychu cyfarfod o'r Cyngor ym mis Mai. Nodwyd.
10. **Materion Gorfodi Cynllunio mewn caeau yn Idole –** Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau bod ymweliad wedi digwydd i gadarnhau nad oedd yr

hysbysiad gorfodi wedi'i ddilyn. Bydd y broses gyfreithiol nawr yn cael ei symud ymlaen. Nodwyd.

11. **Meddygfa Sarn –** Bydd gwybodaeth ychwanegol a dderbynnir gan y Cyngor Sir ar y mater yn cael ei dosbarthu i aelodau.
12. **Materion Gorfodi Cynllunio sy'n ymwneud â Chanolfan Adar Ysglyfaethus ym Mhantgwyn -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
13. **PL/10552 -** Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin – Roedd y Cyngor wedi cyflwyno ei wrthwynebiadau i'r cais. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am Gynhadledd Sector Gwirfoddol ar Argyfyngau Sifil. Roedd disgwyl manylion pellach gan gynnwys dyddiad a lleoliad. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau Hyfforddi, Mawrth – Mehefin 2026. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Sesiynau Cinio a Dysgu. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddi ar y broses o gwblhau'r Ffurflen Flynyddol i Archwilio Cymru. Cadarnhaodd y Clerc y byddai'n mynychu un o'r sesiynau. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru** – Newyddion Cyllid. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
8. **Archwilio Cymru** – Hysbysiad Archwilio. Cadarnhawyd mai'r dyddiad a osodwyd ar gyfer cyflwyno dogfennau 2025-26 i Archwilio Cymru oedd 7fed Gorffennaf 2026 gyda'r dyddiad a osodwyd ar gyfer arfer hawliau etholwyr yn 14fed Medi 2026. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Papurau enwebu ar gyfer Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2026. Nodwyd.
10. **Un Llais Cymru** – Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 27ain Ionawr 2026. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 15eg Ebrill. Nodwyd.
11. **Banc Barclays** – Datganiadau, llofnodwyd y cysoniad banc gan y Cyng Nicola Jones.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. **Gwaith Arolwg Coed**

Roedd cwbwlhad gwaith gan Lampeter Tree Services yn cael ei ddisgwyl.

2. **Diffibrilwyr**

Roedd y 2 bad oedd eu hangen ar gyfer y diffibrilwyr yng Nglanmorlais a Chroesyceiliog wedi'u prynu a chymeradwywyd y gost o £250.00, gyda £10.00 am ddosbarthu a £52.00 am TAW wrth y Defib Store.

Roedd angen pad arall ar gyfer y defib ger Fferm Constant, chymeradwywyd hyn gyda cost of £125.00 gyda £10.00 am ddosbarthu a £27.00 am TAW wrth y Defib Store.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Mawrth gyda chyfanswm cost o £644.00 yn cael ei gytuno.

**9. Eglwys Santes Ann, Cwmffrwd**

Nodwyd pryder bod posibilrwydd y byddai'r Eglwys yn cau. Mynegwyd pryder pellach ynghylch cyfleusterau Neuadd yr Eglwys. Gwneir ymholiadau pellach ynghylch y mater.

**10. Adroddiad Cyllid 2025-26**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 4ydd chwarter ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o gofnodion ariannol y Cyngor.

**11. Asesiad Risg 2026-27**

Ystyriodd y Cyngor Ddadansoddiad Risg drafft 2026-27 a gyflwynwyd gan y Clerc. Cytunwyd y ddogfen ddrafft.

**12. Adroddiad Cyflogau Staff a Chontractau 2026-27**

Cytunwyd Cyngor cau allan y cyhoedd â’r wasg o’r cyfarfod ar gyfer yr eitem oherwydd natur y wybodaeth i drafod.

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a chytunwyd yr eitemau canlynol.

**a) Glanheuwyr Arosfeydd Bysiau**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cadw taliad ar gyfer arosfan bysiau Croesyceiliog fel £100 y flwyddyn.

**b) Atgyweiriwr**

Nodwyd taw yr Atgyweiriwr oedd Michael Leefe gyda thaliad o £24.00 yr awr am y flwyddyn.

**c) Clerc y Cyngor**

Cytunwyd i gadw'r pwynt tâl presennol ar frig y raddfa berthnasol ym mhwynt 23, sef £9,306.49 ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Cyngor dalu lwfans o £26.00 y mis ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn cywmpasi lwfans gweithio cartref CTEM (£26.00 y mis ar hyn o bryd).

Cadarnhaodd y Cyngor y dylid talu'r lwfans teithio angenrheidiol a dalwyd ar gyfradd lwfans milltiroedd CTEM (45c y filltir ar hyn o bryd).

**13. Digwyddiadau Cymunedol 2026**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2026 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Ardd (Llysiau - Diwedd Mehefin a Blodau – Dechrau Awst);
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol - I'w ystyried ymhellach.

Cytunwyd ar fanylion y barnwr gyda'r Clerc i gysylltu â'r barnwr posibl. Trafodir manylion pellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**14. Cynllunio**

1. **PL/10673 -** Annedd newydd arfaethedig i gynnwys estyniad i gwrtil gardd yr annedd a lleoli carafán dros dro am gyfnod y gwaith adeiladu (Ailgyflwyniad yn dilyn gwrthod cais PL/09725) - Nant Yr Haul, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LX. Dim gwrthwynebiadau.
2. **PL/10685 -** Estyniad ochr ystafell wydr ac estyniad llawr cyntaf dros ran isaf yr annedd - Fforest Isaf, Pontantŵn, Cydweli, SA17 5NG. Dim gwrthwynebiadau.

**15. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Defib Store** **£312.00** Padiau defib (gweler eitem 7.2) £260.00 gyda £52.00 TAW

| 2. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Mawrth** | **£775.53<br>£26.00** | **£15.30<br>£16.26** | **£824.45** | **£310.40** | **£53.78** | **£522.69** |

3. **CTEM** **£1,092.14** Ionawr - Mawrth
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** **£2,472.48** Costau Goleuadau Cyhoeddus £2,060.40 gyda £412.08 TAW
4. **Michael Leefe** **£644.00** Taliad Mawrth (gweler eitem 8)
5. **Un Llais Cymru** **£279.00** Aelodaeth 2026-27 (gweler eitem
6. **Defib Store** **£162.00** Padiau defib (gweler eitem 7.2) £135.00 gyda £27.00 TAW
7. Cadarnhaodd y Clerc fod y ffurflen TAW flynyddol wedi'i chyflwyno am swm o £1,066.87.

**16. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc ei fod wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir
   a. Tipio Anghyfreithlon yn Constant.
   b. Bin yn gorlifo ym Mancycapel.

c. Cŵn rhydd yn Idole.

2. Cynhelir Cinio Blynyddol y Cyngor ar 17 Ebrill yn y Llew Coch.

**Cynhelir cyfarfod nesaf a Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ddydd Iau 14eg Mai 2026.**